# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Fframwaith MRE a Dangosyddion Gweithgaredd Interim

Rhif y Fersiwn: 1
Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
© Hawlfraint y Goron 2024
ISBN: 978-1-83715-051-9

**Cyflwyniad a Phwrpas y Fframwaith MRE Interim**

Mae *Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023* (y "Ddeddf") yn nodi pedwar amcan i reoli tir yn gynaliadwy (a restrir isod) sy'n gosod dyletswyddau cyfreithiol penodol ar Lywodraeth Cymru a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu. Ar gyfer pob amcan, rhaid i'r Cynlluniau a'r prosiectau y maent yn eu hariannu ddiwallu ein hanghenion ni heddiw heb aberthu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Dylai prosiectau gefnogi hefyd y nodau llesiant yn adran 4 o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Y pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yw:

- **Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.**

  Dangosyddion canlyniadau: - Arwynebedd, nifer y derbynwyr a chyfanswm gwerth y buddsoddiad a wneir i reoli tir yn gynaliadwy.

- **Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.**

  Dangosyddion canlyniadau: - Arwynebedd, nifer y derbynwyr a chyfanswm gwerth y buddsoddiad i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

- **Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu.**

  Dangosyddion canlyniadau: - Arwynebedd, nifer y derbynwyr a chyfanswm gwerth y buddsoddiad i *gynnal a gwella ecosystemau bioamrywiaeth*

- **Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hybu cyfleoedd y cyhoedd i'w defnyddio ac i ymgysylltu â nhw, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.**

  Dangosyddion canlyniadau: - *Cymunedau sy'n gyfeillgar i bobl gyda digonedd o gyfleoedd diwylliannol ac i hamddena, creu ymdeimlad o le ac i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg.*

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fonitro ac adrodd yn rheolaidd ar dargedau a dangosyddion a chydymffurfiaeth ag amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae'r fframwaith hwn yn ceisio sicrhau:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau adrodd statudol a amlinellir yn y Ddeddf;
- Bod arweinwyr prosiectau a'r grwpiau cydweithredol fydd yn cael eu harwain ganddynt yn deall eu dyletswyddau adrodd ac yn sefydlu systemau effeithiol i

gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a pharatoi adroddiadau ar hynt prosiectau a'r hyn a wneir ganddynt;

- Mae Llywodraeth Cymru yn tracio ac yn adrodd ar hynt buddsoddiadau, gan gynnwys eu perfformiad ariannol a dangosyddion gweithgaredd a chanlyniadau sy'n ategu amcanion SLM;
- mae'r holl dystiolaeth a data a gesglir yn cael eu defnyddio i werthuso cynlluniau a'u cyfraniad at gyflawni amcanion SLM, yn ogystal â dysgu gwersi a all ein helpu i greu a chynnal polisi yn y dyfodol;
- atebolrwydd am adnoddau a gwariant cyhoeddus yn y tymor byr a'r tymor hir, a stiwardiaeth briodol ohonynt.

Wedi asesu cynlluniau prosiect, gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau proffil cyflawni wrth lofnodi eu contract i ddarparu'r **Cynllun Cymorth Aml-Flynyddol.** Bydd yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru allu gweld a yw'r prosiectau wedi llwyddo i gyflawni eu hamcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

**Dangosyddion SLM i'w defnyddio gan Brosiectau CANI**

Ni fydd yr holl ddangosyddion yn berthnasol i bob prosiect a gallant newid yn ystod cam Datblygu'r Prosiect. Trefnir y dangosyddion o gwmpas 7 thema allweddol fel y gwelwch yn nhabl 1.

Tabl 1 – Tabl Cyfeirio Cyffredinol ar gyfer SLM

| **Thema** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| Arloesi a Digideiddio | Digideiddio, Moderneiddio Ffermydd |
| Economaidd-gymdeithasol | Cydraddoldeb, Iaith, Meithrin Cymunedau, Mentrau Cymdeithasol, Cadwyni Cyflenwi |
| Newid Hinsawdd | Addasu, Lliniaru, Ynni Adnewyddadwy |
| Coedwigaeth | Creu coetiroedd, adfer coetir, amaeth-goedwigaeth, y Goedwig Genedlaethol (cymuned) |
| Amgylcheddol | Bioamrywiaeth, Ansawdd Dŵr, Ansawdd Aer |
| Cynhyrchu Bwyd / Diogelu Cyflenwadau Bwyd | Hyfywedd Ffermydd (buddsoddiadau), KT &I, Arallgyfeirio Amaethyddol, Garddwriaeth |
| Cydweithredu | Cadwyn Gyflenwi, Prosiectau Peilot, CANI |

# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (CANI)

Mae'r tablau canlynol yn dangos y 'dangosyddion perfformiad' fydd yn cael eu defnyddio yn 2024/2026 (y cyfnod adrodd interim, fel y'i gelwir, cyn i gynlluniau'r SFS ddechrau) ar gyfer y Cynllun CANI cyfan. Bydd y dangosyddion perfformiad unigol a nodir yn nhabl 3 yn dangos bod y Cynllun yn cyflawni yn unol â Dangosyddion y Cynllun. Dylid defnyddio'r dangosyddion i helpu i fonitro **gweithgareddau'r** prosiect wrth iddynt fynd yn eu blaenau a phan fyddwch yn paratoi adroddiad ar **ganlyniadau'r** prosiect ar sail y themâu.

- Dangosyddion gweithgaredd - a ddefnyddir i fonitro allbynnau yn ôl gwariant y cyllid sydd wedi'i neilltuo
- Dangosyddion canlyniadau - i fonitro cynnydd ar sail y themâu

| Thema | Amcan | Mesur |
|---|---|---|
| **Arloesi**<br><br>**Newid Hinsawdd**<br><br>**Amgylcheddol** | Perfformiad amgylcheddol neu hinsoddol trwy wybodaeth ac arloesi | Nifer y bobl sy'n elwa ar gyngor, hyfforddiant, cyfnewid gwybodaeth, neu grwpiau gweithredol thematig sy'n gysylltiedig â pherfformiad amgylcheddol neu hinsoddol |
| **Economaidd-gymdeithasol** | Twf a swyddi mewn ardaloedd gwledig | Swyddi newydd wedi'u creu drwy brosiectau |
| **Economaidd-gymdeithasol** | Twf a swyddi mewn ardaloedd gwledig | Swyddi wedi'u diogelu drwy brosiectau a ariennir |
| **Economaidd-gymdeithasol** | Cwmpas y cynllun | Cyfran o'r boblogaeth wledig y mae buddsoddiad LIC wedi effeithio arnynt |
| **Economaidd-gymdeithasol** | Datblygu'r economi wledig | Nifer y busnesau gwledig, gan gynnwys busnesau yn y fio-economi, a ddatblygwyd gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru |
| **Economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Arloesi a Digideiddio** | Cysylltu busnesau gwledig | Cyfran y busnesau gwledig sy'n elwa o fedru cael at wasanaethau a seilwaith yn well, diolch i fuddsoddiad LIC |
| **Economaidd-gymdeithasol** | Cefnogi iechyd a lles y gymuned wledig | Nifer y bobl sy'n elwa ar brosiectau cynhwysiant cymdeithasol a gefnogir<br>% o'r buddsoddiad |
| **Newid Hinsawdd** | Addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiad a gefnogir i addasu'n well i'r hinsawdd |

| | | |
|---|---|---|
| **Newid Hinsawdd** | Lleihau allyriadau yn y sector da byw | Cyfran yr unedau da byw (LU) sydd o dan ymrwymiad a gefnogir i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a/neu amonia, gan gynnwys rheoli tail |
| **Newid Hinsawdd** | Defnyddio llai o blaladdwyr / gwrtaith synthetig | Nifer Ha o dir amaethyddol a ddefnyddir yr effeithiwyd arnynt |
| **Newid Hinsawdd** | Storio carbon mewn pridd | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau â gefnogir i leihau allyriadau neu i barhau i storio carbon neu i storio mwy ohono (gan gynnwys glaswelltir parhaol, cnydau parhaol gyda gorchudd gwyrdd parhaol, tir amaethyddol mewn gwlyptir a mawndir) |
| **Newid Hinsawdd (lliniaru)** | Ynni adnewyddadwy o amaethyddiaeth, coedwigaeth, biomas a ffynonellau adnewyddadwy eraill | Buddsoddiadau a gefnogir mewn capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys bio-ynniseiliedig (mewn KW) |
| **Newid Hinsawdd** | Buddsoddi mewn cysylltiad â'r hinsawdd / Ynni Adnewyddadwy | Cyfran y ffermydd sy'n elwa o gymorth buddsoddi LIC sy'n cyfrannu at liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt, ac at gynhyrchu ynni adnewyddadwy neu fioddeunyddiau |
| **Coedwigaeth** | Tir wedi'i goedwigo | Tir sydd wedi cael cymorth ar gyfer coedwigo, amaeth-goedwigaeth ac adfer, gan gynnwys delio â chlefydau |
| **Coedwigaeth** | Cymorth i'r sector coedwigaeth fuddsoddi | Cyfanswm y buddsoddiad i wella perfformiad y sector coedwigaeth |
| **Coedwigaeth** | *Safonau achrededig* | Arwynebedd y goedwigaeth fasnachol sydd o dan ‘reolaeth gynaliadwy sy'n gallu addasu’, sy'n cwrdd â Safon Coedwigaeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| **Coedwigaeth** | Cymorth ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy | Cyfran y coedwigoedd sydd o dan ymrwymiad i helpu i warchod coedwigoedd a rheoli gwasanaethau ecosystemau |
| **Coedwigaeth** | Coedwigaeth Fasnachol | Arwynebedd y goedwigaeth fasnachol sydd wedi'i blannu â rhywogaethau coed sy'n addas i'r hinsawdd a'r ecoleg (osgoi rhywogaethau goresgynnol a thrwm ar ddŵr ac osgoi difrodi'r fioamrywiaeth frodorol). |
| **Amgylcheddol** | Gwella a diogelu pridd | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir er lles rheoli pridd i wella ansawdd pridd a biota (trwy er enghraifft osgoi gwaith trin, gorchuddio pridd â chnydau, cylchdroi cnydau sy'n cynnwys codlysiau) |
| **Amgylcheddol** | Gwella ansawdd aer | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir i leihau allyriadau amonia |
| **Amgylcheddol** | Amddiffyn ansawdd dŵr | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir i wella ansawdd cyrff dŵr |
| **Amgylcheddol** | Gwella ansawdd dŵr | Mwy o gapasiti storio dŵr ar y fferm / codi llai o ddŵr |
| **Amgylcheddol** | Gwella ansawdd dŵr | Storfa slyri / clamp silwair priodol |
| **Amgylcheddol** | Rheoli maetholion mewn ffordd gynaliadwy | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir sy'n gysylltiedig â rheoli maetholion yn well |
| **Amgylcheddol** | Defnydd cynaliadwy o ddŵr | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir i wella'r cydbwysedd dŵr |
| **Amgylcheddol** | Defnydd cynaliadwy o blaladdwyr a defnyddio llai ohonynt | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau penodol a gefnogir sy'n arwain at |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddefnydd cynaliadwy o blaladdwyr i leihau risgiau ac effeithiau plaladdwyr fel gollyngiadau i'r amgylchedd |
| **Amgylcheddol** | Perfformiad amgylcheddol yn y sector da byw | Cyfran yr unedau da byw (LU) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir i wella cynaliadwyedd amgylcheddol |
| **Amgylcheddol** | Buddsoddi sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol | Cyfran y ffermydd sy'n elwa o gymorth gan LIC i fuddsoddi mewn cynnyrch a nwyddau di-gynnyrch sy'n gysylltiedig â chadw/rheoli adnoddau naturiol |
| **Amgylcheddol**<br><br>**Newid Hinsawdd** | Perfformiad amgylcheddol neu hinsoddol drwy fuddsoddi mewn ardaloedd gwledig | Nifer y gweithrediadau sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol a lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt mewn ardaloedd gwledig |
| **Amgylcheddol** | Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir i warchod neu adfer bioamrywiaeth gan gynnwys arferion ffermio gwerthfawr i natur |
| **Amgylcheddol** | Buddsoddi sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth | Cyfran y ffermydd sy'n elwa o gymorth buddsoddi LIC sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth |
| **Amgylcheddol** | Gwella tir mewn SoDdGA | Cyfran cyfanswm y tir mewn SoDdGA sydd o dan ymrwymiadau ychwanegol a gefnogir mewn cynlluniau rheoli. |
| **Amgylcheddol** | Cadw nodweddion tirwedd | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) sydd o dan ymrwymiadau a gefnogir i reoli nodweddion y dirwedd, gan gynnwys perthi (gwrychoedd) a choed |
| **Cynhyrchu Bwyd / Diogelu Cyflenwadau Bwyd** | Datblygu amaethyddiaeth organig | Cyfran y tir amaethyddol a ddefnyddir (UAA) a gefnogir gan LLC ar gyfer ffermio organig, gan nodi'r rhaniad |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhwng tir sy'n cael ei gadw'n organig a thir sy'n cael ei droi'n organig |
| **Cynhyrchu Bwyd / Diogelu Cyflenwadau Bwyd** | Cyfyngu ar y defnydd o wrthfiotigau | Cyfran yr unedau da byw (LU) sy'n dod o dan weithredoedd a gefnogir i gyfyngu ar y defnydd o wrthfiotigau (atal/lleihau) |
| **Cydweithredu** | | Prosiectau peilot |
| **Cydweithredu** | | Cadwyni Cyflenwi |

## Dangosyddion Perfformiad Prosiectau CANI

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r 'dangosyddion perfformiad' CANI i'w defnyddio ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2026 ar gyfer pob prosiect ac mae'n cynnwys:

- Dangosyddion gweithgaredd - a ddefnyddir i fonitro allbynnau yn ôl gwariant y cyllid sydd wedi'i neilltuo
- Dangosyddion canlyniadau - i fonitro cynnydd ar sail y themâu

| Math (au) o ymyriadau | Dangosydd Gweithgaredd / Allbwn |
|---|---|
| Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi | • Nifer y prosiectau grŵp gweithredol thematig a gefnogwyd.<br>• Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd.<br>• Nifer y gweithrediadau a gefnogwyd<br>• Nifer y diwrnodau hyfforddi a roddwyd<br>• Nifer y cyfranogwyr a hyfforddwyd<br>• Nifer y swyddi gafodd eu creu.<br>• Nifer y gweithgareddau neu unedau hyfforddi, cynghori a chodi ymwybyddiaeth a gefnogwyd |
| Cyfnewid a lledaenu gwybodaeth | • Nifer y gweithgareddau neu unedau cynghori i ddarparu cymorth arloesi ar gyfer paratoi neu gynnal prosiect grŵp gweithredu / ymchwil.<br>• Nifer y gweithgareddau neu unedau hyfforddi, cynghori a chodi ymwybyddiaeth a gefnogwyd |
| Cynlluniau ar gyfer yr hinsawdd, | • Nifer yr hectarau sy'n elwa ar eco-gynlluniau<br>• Nifer yr unedau da byw / hectarau sy'n elwa ar eco-gynlluniau |

| | |
|---|---|
| yr amgylchedd a lles anifeiliaid | |
| Rheoli Risg | • Nifer y partneriaethau diogelwch a sefydlwyd.<br>• Nifer yr oriau Hyfforddi Partneriaethau Diogelwch wedi'u cwblhau |
| Ymrwymiadau amgylcheddol a hinsoddol a rheoli eraill | • Nifer yr unedau da byw sy'n elwa ar gymorth ar gyfer lles anifeiliaid, iechyd neu fwy o fesurau bioddiogelwch<br>• Nifer yn fwy o litrau o gapasiti storio dŵr ar y fferm |
| Cydweithredu | • Nifer y grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cynhyrchwyr a gefnogwyd<br>• Nifer y buddiolwyr sy'n derbyn cymorth i gymryd rhan mewn cynlluniau ansawdd swyddogol |
| Mathau o ymyriadau yn y sector gwenynyddiaeth | • Nifer y gweithgareddau neu unedau ar gyfer diogelu cadw gwenyn neu ei wella |
| Mathau o ymyrraeth yn y sector Iechyd a Lles Anifeiliaid | • Nifer y staff proffesiynol a hyfforddwyd<br>• Nifer y cynhyrchion a lansiwyd |